

YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

DYDD Gwener, 11 Awst 2023

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: G.H. John (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

M. Bull, Rheolwr Busnes ac Ariannu Datblygu Economaidd;
J. Leonard, Swyddog Datblygu Economaidd: Busnes a Grantiau;
A. Nicholas, Swyddog Trefi Marchnad Gwledig;
C. Owen, Cydgysylltydd Biwro;
M. E. Pemberton, Cydgysylltydd y Rhaglen Wledig;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidd.

Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 11.00 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 11EG GORFFENNAF 2023

PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 11eg Gorffennaf 2023, gan ei fod yn gywir.

3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRONFA CYLLID A DARGEDIR

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Cyllid a Dargedir yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:

Y Gronfa Cyllid a Dargedir	
Yr Ymgeisydd	Y Dyfarniad
Parc Stephens Community Association	£3,999.00
Drefach Community Sports Club	£20,000.00
Trimsaran Family Centre	£8,259.20

4. CRONFA REFENIW 10 TREF

PENDERFYNWYD bod y ceisiadau canlynol am gymorth gan y Gronfa Refeniw 10 Tref yn cael eu cymeradwyo yn amodol ar y telerau ac amodau arferol a'r rheiny a nodwyd yn yr adroddiad:

Yr Ymgeisydd	Y Dyfarniad
Newcastle Emlyn Town Council	£4,999.00

5. CYNLLUN BENTHYCIADAU CANOL TREF

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ystyriaeth i adroddiad a oedd yn manylu ar newidiadau arfaethedig i rai o feini prawf y Benthyciad Canol Tref er mwyn diwallu anghenion presennol yr economi a chyfateb â chynigion o gyllid eraill a oedd gan

Gyngor Sir Caerfyrddin i'w cynnig, yn enwedig y Gronfa Eiddo Gwag a Chronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i feini prawf y Benthyciad Canol Tref y manylir arnynt yn yr adroddiad i ateb galw presennol y farchnad.

6. YMDDIRIEDOLAETH ORIEL MYRDDIN

PENDERFYNWYD, er mwyn i Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin gydymffurfio â'i dyletswyddau cyfreithiol a rheoleiddiol, fod Neil Confrey, Louise Morgan, Sally Moss a Nigel Roberts yn cael eu hailbenodi fel Ymddiriedolwyr Annibynnol Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin o 23 Medi 2023.

7. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

8. CYMUNEDAU MENTRUS

Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, **PENDERFYNWYD** yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 7 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r unigolion a'r busnesau a nodir yn yr adroddiad o dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.

Bu'r Aelod o'r Cabinet yn ystyried ceisiadau am gymorth o'r Gronfa Cymunedau Mentrus.

PENDERFYNWYD

8.1 cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cymunedau Mentrus yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:

Yr Ymgeisydd	Y Dyfarniad
Atebol	£75,000.00
Camp Out West	£28,000.00
Carlam Cyf	£75,000.00

Carmarthen Deli Caerfyrddin	£75,000.00
Decus	£75,000.00
Diod	£32,801.97
Equal Education Partners	£43,106.00
Jenkins Garden Machinery Limited	£57,801.80
Old Oak Kitchens	£38,500.00
Olew Solutions – Pigo a Paco	£35,000.00
Onesta	£69,353.20
Carmarthenshire School of Gymnastics	£18,213.83
Swim Like a Fish	£29,400.00
Teilwr bach	£24,500.00
Tref Bach Tots	£73,564.00
Caffi Lolfa	£44,016.00
Mel Gwenyn Gruffydd	£23,411.50
Pruex	£24,779.00

8.2 peidio â chefnogi'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cymunedau Mentrus gan nad ydynt yn cyd-fynd â phrif feini prawf y gronfa:

Yr Ymgeisydd
E.J. Thomas & Son
Little bit different
Llanelli Goods Shed
Menter Cwm Gwendraeth Elli
Mentrau Creadigol Cymru
Pinopolis
Sylen Lakes
Ynni Sir Gar
The Cattle Vet

8.3 i nodi bod y cais gan Tadourna Wildlife wedi'i dynnu'n ol.

9. BENTHYCIAD CANOL TREF

Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 7 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r unigolion a'r busnesau a nodir yn yr adroddiad o dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried cais a dderbyniwyd ar gyfer Benthyciad Canol Tref.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am Fenthyciad Canol Tref yn amodol ar y telerau ac amodau arferol a'r rhai a nodwyd yn yr adroddiad:

Yr Ymgeisydd	Y Dyfarniad
Phillips Lane Ltd	£331,275.50

AELOD O'R CABINET

DYDDIAD